



—LLYTHYR AGORED—

16 TACHWEDD 2021

GYDA’N GILYDD GALLWN WNEUD CYMAINT

‘Gyda’n gilydd’ oedd thema cynhadledd genedlaethol hybrid ardderchog Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC) eleni.

Yn ei phrif araith i’r gynhadledd honno, disgrifiodd Sue sut, wrth iddi fyfyrio ar y bum mlynedd ddiwethaf yn gadeirydd Cymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol (NALC), gan gynnwys nifer o lwyddiannau a chyflawniadau yn ystod y cyfnod hwnnw, fod un ymadrodd yn dod yn ôl iddi dro ar ôl tro: safwn gyda’n gilydd.

Mae’n addas iawn y cymerwyd teitl y gynhadledd honno – Gyda’n gilydd gallwn wneud cymaint – o ddyfyniad gan yr ysbrydolwraig Helen Keller.

Ac yng Nghymru, mae Un Llais Cymru a’r SLCC yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu capasiti cyngorau lleol i gyflawni’n hyderus ar gyfer eu cymunedau.

Mae NALC, SLCC ac Un Llais Cymru oll yn credu mai’r awydd cyffredinol yma fydd yr allwedd i lwyddiant parhaus yr haen gyntaf o lywodraeth leol yn Lloegr a Chymru a bydd yn sicrhau y gallwn ddatgloi cyfleoedd newydd.

Mae’n ddiau fod gan gyngorau lleol ddyfodol disglair a rôl hollbwysig i’w chyflawni yn helpu ein cenedloedd i ail-adeiladu wedi’r pandemig, gan roi cymuned a lle ynghanol yr heriau allweddol fydd yn ein hwynebu.

Safwn gyda’n gilydd. Ac mewn undod fe ffynnwn.

Ond os ydym am gydio yn y cyfle a gwneud yn fawr o’n potensial, mae’n hanfodol ein bod yn adeiladu ar y cydweithio sydd rhyngom ar bob lefel.

Mae hyn yn cynnwys dwyn pwysau ar y materion sy’n bwysig inni megis sicrhau bod cyngorau lleol yn cael eu cydnabod yn rhan annatod o lywodraeth leol, eu bod yn cael eu hariannu’n deg ac yn mwynhau rhyddid ariannol, ac y gallant gynnal cyfarfodydd cyngor o bell yn Lloegr fel sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru.

Yn ogystal â darparu cefnogaeth arbenigol a phroffesiynol i gynghorau, cynghorwyr a chlercod trwy gyngor, arweiniad, hyfforddiant ac adnoddau eraill, a gweithio trwy ein rhwydweithiau o ganghennau sirol, cymdeithasau sirol a phwyllgorau ardal.

Mae'n gryfder fod cymaint o gynghorau lleol yn aelodau o NALC a'u cymdeithasau sirol ac o Un Llais Cymru. A bod cymaint o gynghorau lleol yn cefnogi aelodaeth eu clercod o'r SLCC. Hoffem ddiolch ichi am y gefnogaeth honno.

Fodd bynnag, er mwyn adeiladu ar hyn a pharhau i'ch cefnogi yn effeithiol, rydym yn dod at ein gilydd i ofyn i bob cyngor, cleric a chynghorydd wneud dau beth.

Yn gyntaf, parhau i ddarparu yn eich cyllideb ar gyfer aelodaeth eich cyngor o NALC neu Un Llais Cymru ac aelodaeth eich clercod o'r SLCC. Os nad ydych eisoes yn aelod o'r un ohonynt byddem yn eich annog yn gryf i ystyried ymuno.

Yn ail, buddsoddi yn hyfforddiant a datblygiad eich clercod a'ch cynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eich bod wedi gwneud darpariaeth ddigonol yn eich cyllideb.

Trwy fod yn aelod o'r ddau fudiad, fe gewch gefnogaeth ategol sydd wedi'i theilwra i'ch rolau arweinyddiaeth leol fel clercod a chynghorwyr proffesiynol.

Yn benodol, byddwch yn gallu elwa o waith y prosiect gwarineb a pharch newydd y mae'r SLCC a NALC yn ei gyd ariannu; ac y mae Un Llais Cymru yn chwarae rhan weithgar ynddo. Trwy ein gwefannau byddwch yn gallu manteisio ar gasgliad newydd o adnoddau ar gyfer clercod, cynghorwyr a chynghorau i hyrwyddo a chefnogi gwarineb a pharch yn y sector. Bydd hyn yn cynnwys cyngor, arweiniad a model bolisiau ynghyd â pharhau i weithio i bwysu ar Lywodraeth y DG i ymateb i a gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

Fel cadeiryddion NALC, Un Llais Cymru a'r SLCC, rydym yn sicr fod bod yn aelodau o'n mudiadau yn hollbwysig ac y bydd yn gwneud y sector yn gryfach, ac yn cynyddu parch Llywodraethau y DG a Chymru tuag atom a'n gwneud yn fwy abl i ddiwallu anghenion pobl a chymunedau.



Cyng Sue Baxter
Cadeirydd
NALC



Cllr Mike Theodoulou
Cadeirydd
Un Llais Cymru



Steve Trice
Cadeirydd
SLCC